## PWYLLGOR ARCHWILIO  14-01-10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd); Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Selwyn Griffiths, Dafydd Ll. Hughes, Brian Jones, Charles W. Jones, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts, Ioan Thomas

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwenna Edwards (Pennaeth Darparu a Hamdden), Alan Hughes (Pen Swyddog Hamdden), Dave Wood (Rheolwr Cyfleusterau), Annette Sellars (Rheolwr Canolfan Denis Arfon), Bethan Moore (Rheolwr Canolfan Hamdden Plas Ffrancon), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog  Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Margaret Griffith, Gethin Williams

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2009, fel rhai cywir.
Mater yn Codi
Cofnod 3 – Cyfrifon Terfynol 2008/09
i) Datganiad o'r Cyfrifon

Nododd y Pennaeth Cyllid y gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf am ddiweddariad ar gynllun gweithredu system cofrestru asedau. Ymddiheurodd na chyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor hwn ond sicrhaodd y cyflwynir adroddiad i'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

### 3. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**a) Adroddiad i'w ystyried ar gais y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – Canolfannau Hamdden**

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Darparu a Hamdden fod yn bresennol er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau a allai godi o'r adroddiadau archwiliad ar weinyddiaeth a rheolaeth Canolfannau Hamdden Penllyn, Plas Ffrancon a Chanolfan Denis Arfon.

'Roedd hyn yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Tachwedd 2009. Nododd y

swyddog y cyhoeddwyd adroddiadau archwiliad ar chwech o sefydliadau hamdden yn ystod y cyfnod hwn. Derbyniodd tair o'r canolfannau hyn farn categori B ond rhoddwyd categori C i dair canolfan arall oherwydd diffyg ymlyniad i gyfran cymharol uchel o'r rheolaethau mewnol disgwyliedig sef -
a) Canolfan Hamdden Penllyn – cynhaliwyd profion archwilio ar 63 rheolaeth fewnol a dengys y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 39 o'r meysydd hyn.
b) Canolfan Denis Arfon – cynhaliwyd profion archwilio ar 58 rheolaeth fewnol a dengys y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 31 o'r meysydd hyn.
c) Canolfan Hamdden Plas Ffrancon – cynhaliwyd profion archwilio ar 58 rheolaeth fewnol a dengys profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 35 o'r meysydd hyn.

Cadarnhaodd bod y Gwasanaeth Hamdden wedi diweddaru eu canllawiau cyllidol ar gyfer y canolfannau hamdden mewn ymateb i'r adroddiadau, ac wedi darparu canllawiau newydd ar gyfer rhai meysydd eraill. 'Roedd hyn er mwyn sicrhau ymdriniaeth â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiadau o safbwynt rheolaethau mewnol. Nododd bod y canllawiau hyn yn cynnwys dogfennaeth fanwl ar sut i ymdrin â'r materion canlynol –

- Trin arian
- Archebu
- Cyfrifon Imprest
- Archwiliadau Mewnol
- Debyd Uniongyrchol
- Treth ar Werth

Disgwylir y bydd y canllawiau hyn, nid yn unig yn cael eu dosbarthu i'r holl ganolfannau hamdden, ond hefyd yn cael eu gweithredu a'u dilyn yn yr achosion hynny lle gwelwyd diffyg ymlyniad yn ystod yr archwiliad.

Gofynnodd aelod pam nad oedd y canllawiau yn weithredol yn gynharach o ystyried bod y canolfannau hamdden wedi eu sefydlu ers blynyddoedd bellach.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, hysbysodd y Pennaeth Darparu a Hamdden bod gan y Gwasanaeth Hamdden gynllun rheoli gwybodaeth IMS a chadarnhaodd y byddai'r gwasanaeth, yn dilyn yr archwiliad hwn, yn mynd rhagddo i wella'r canllawiau. Nododd efallai bod y canolfannau eraill wedi gallu ymdrin â'r achosion heb y canllawiau ond er tegwch mae angen i'r canllawiau fod yn glir i bawb eu dilyn.

Cyfeiriodd y Pen Swyddog Hamdden at y ffaith bod y gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda'r Adain Archwilio Mewnol ers blynyddoedd i ddatblygu canllawiau ar gyfer rheolwyr ac mae'r cynllun IMS yn un pwysig iawn gan bod polisiau'r Cyngor a'r dulliau gweithredu wedi eu cynnwys ynddo. Nododd bod Archwilio Mewnol yn 2003 yn edrych ar 19 o faterion gwahanol mewn canolfannau hamdden ond erbyn 2006 'roedd y ffigur wedi codi i 37 o faterion. Y llynedd 'roedd y ffigur wedi codi eto i 58 a 63 o faterion. Ers y cyhoeddwyd yr adroddiad archwiliad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Archwilio Mewnol ac mae'r canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys a'u diweddaru yn y cynllun IMS. Tynnodd sylw hefyd bod rhai o'r canolfannau hamdden eraill wedi derbyn categori B, gyda'r un canllawiau.

Gofynnodd aelod a oedd y rheolwyr yn mynychu cyrsiau. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Darparu a Hamdden bod y cynllun IMS yn nodi beth sy'n angenrheidiol i'r staff ei wneud gan gynnwys mynychu cyrsiau.

Mewn perthynas â Chanolfan Denis Arfon, nododd y Pen Swyddog Hamdden bod pob Canolfan Hamdden i fod gyda phosteri yn yr ystafell ffitrwydd yn nodi canllawiau parthed iechyd a diogelwch.

Gofynnodd aelod a oedd rheolwyr y canolfannau hyn, drwy Wynedd, yn cael dilyniant i'r hyfforddiant. Mewn ymateb, hysbysodd y Pen Swyddog Hamdden bod cyfarfodydd misol rheolwyr yn trafod hyn, ond os bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn codi, yna cynhelir cyfarfodydd arbennig gyda'r rheolwyr. Nodwyd hefyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i gwrs rheoli ac arwain.

Holodd aelod arall os oedd gwahaniaeth yn lefelau staffio'r canolfannau dan sylw. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod dwy o'r dair canolfan a dderbyniodd gategori B yn ganolfannau mawr, sef Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog a Chanolfan Hamdden Dwyfor, Pwllheli ac yn naturiol felly 'roedd angen ychwaneg o staff yn y canolfannau hynny.

Nododd aelod iddo ymweld â Chanolfan Hamdden Glaslyn yn ddiweddar pryd y sylwodd bod y grŵp anabl a oedd yn cyfarfod yno wedi eu lleoli mewn ystafell ar y llawr cyntaf, a bod grŵp arall nad oedd yn anabl mewn ystafell ar y llawr gwaelod. Nid oedd hyn yn dderbyniol, a dymunodd wneud cwyn am y sefyllfa ar y pryd, ond yn anffodus nid oedd ffurflenni pwrpasol yno i wneud hynny. Addawodd y Pennaeth Darparu a Hamdden roddi sylw i'r mater.

Mewn perthynas â ffurflenni cais i ymaelodi â'r canolfannau hamdden, tynnodd aelod sylw at y ffaith y dylai ffurflen gynnwys gwybodaeth i'r rhieni arwyddo yn datgan eu bod yn deall nad oes hawl i unrhyw un dynnu lluniau yn y ganolfan heb wneud cais penodol drwy lenwi'r ffurflen briodol. Cytunwyd y dylid cael barn y Swyddog Monitro ar y mater

**PENDERFYNWYD derbyn crynhoad o'r adroddiadau archwiliad mewnol a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr yr Adran Darparu a Hamdden er gweithrediad.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2009**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Tachwedd 2009. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 19 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 5 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 7 archwiliad dilyniant.
- 1 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 11 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 27 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Canolfan Hamdden Bro Dysynni**

Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod y Cyngor yn bwriadu rhoddi gorchymyn gwahardd parcio ar stryd penodol yn Nhywyn ac i drigolion y stryd honno gael cynnig i dalu am barcio ym maes parcio'r ganolfan hamdden uchod am £50 y flwyddyn. Ar ôl ymchwilio i mewn i'r mater, sylwyd na roddwyd hawl i weithredu hyn. Mewn ymateb, hysbysodd y Pen Swyddog Hamdden y cynhaliwyd cyfarfod gyda Archwilio Mewnol i drafod y sefyllfa ac ni fydd hyn yn cael ei weithredu.

Diolchwyd i'r swyddogion perthnasol am weithredu ar fyrder ynglyn â'r mater.

**Cartref Henoed Plas Maesincla, Caernarfon**

Gofynnodd aelod a oedd staff perthnasol y cartrefi hyn, sy'n gorfod ymdrin ag arian, yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg iddo ef a'r Arweinydd Tîm perthnasol gyfarfod y Pennaeth Darparu a Hamdden a'r swyddogion perthnasol i drafod adroddiad drafft yr archwiliad, pryd y cytunwyd bod rheolwyr y cartrefi i gael hyfforddiant ar faterion ariannol. 'Roedd sesiwn hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnal ar fore cyfarfod y pwyllgor.

**Rheolaeth Cyfluniad**

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad hwn wedi derbyn barn categori C. Nododd, yn dilyn yr archwiliad a chyhoeddi adroddiad drafft, gwnaed gwaith sylweddol gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth ac y gwnaed cynnydd arwyddocaol. Pennwyd Ebrill 2010 fel dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn ac yn dilyn hynny cynhelir archwiliad dilyniant er mwyn cadarnhau bod hynny wedi ei wneud.

**Archwiliad Ymatebol – Ysgol Uwchradd Tywyn**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cwblhawyd yr archwiliad ymatebol hwn ar Ysgol Uwchradd Tywyn yn ystod tymor yr haf 2009, ar gais y Pennaeth Cyllid. Gwnaed hyn oherwydd y derbyniwyd honiad nad oedd yr ysgol wedi gweithredu'n amserol yn sgîl rhagolygon ariannol a gyhoeddwyd yn Hydref 2008. 'Roedd hyn wedi arwain at sefyllfa a ymddengys yn argyfyngus erbyn Mai 2009. Archwiliwyd rhagolygon yr ysgol o 2009 hyd 2012 a chynllun diweddaraf yr ysgol ynghyd â'r camau oedd yn eu lle ar gyfer Awst 2009, Awst 2010 ac Awst 2011 er mwyn ymdrin â'r sefyllfa ariannol. Nododd brif ddarganfyddiadau'r archwiliad sef y gwelwyd bod arbedion ariannol Awst 2009 wedi eu hadnabod a'u gweithredu ond bod gwaith pellach yn angenrheidiol er mwyn adnabod arbedion Awst 2010 ac Awst 2011.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi i 30 Tachwedd 2009 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2009/10

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2009/10.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2009 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Staff wedi eu clustnodi | 2 |
| Crewyd papurau gwaith | 6 |
| Gwaith maes ar y gweill | 20 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Adroddiad drafft | 13 |
| Adroddiad terfynol | 27 |
| Cyfanswm | **105** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2008/09 yw 95%. Ar ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn ar 31 Rhagfyr 2009, 'roedd 68% o'r archwiliadau yn y cynllun unai wedi eu cwblhau neu ar y gweill. Mae'r tasgau sy'n weddill yn y cynllun i'w cwblhau, wedi eu dyrannu i archwilwyr unigol. Er nad oes modd rhagweld gyda sicrwydd unrhyw ofynion am archwiliadau ymatebol yn ystod gweddill 2009/10, mae mwyafrif yr archwiliadau ymatebol sydd wedi bod ar y gweill yn ystod y flwyddyn bellach wedi eu cwblhau, gyda'r amcan o sicrhau bod yr archwilwyr yn gallu canolbwyntio ar gwblhau'r cynllun yn y chwarter olaf.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, hysbysodd y swyddog y gwnaed un addasiad ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. 'Roedd cynllun gwreiddiol 2009/10 yn cynnwys archwiliad 10 diwrnod o Fenthyciadau Cefnogi Busnes ond gan bod bodolaeth cronfeydd o'r fath yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ni fyddai'n amserol i gynnal archwiliad llawn ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau archwilio mewnol i gynnal yr archwiliad hwn os neu pryd y caiff cronfa o'r newydd ei sefydlu.

Mewn perthynas â Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr, hysbysodd y swyddog bod archwiliad 10 diwrnod o drefniadau gweinyddu wedi eu cynnwys yn y cynllun archwilio gwreiddiol. Ar ôl sefydlu cwmpas yr archwiliad (gan gynnwys ystyriaeth o ofynion y Cynulliad), daeth yn amlwg na fyddai 10 diwrnod yn ddigonol er mwyn cynnal yr holl brofion angenrheidiol, felly mae'r 10 diwrnod a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer yr archwiliad o Fenthyciadau Cefnogi Busnes wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr, er mwyn cynyddu dyddiau'r archwiliad hwn i 20 diwrnod.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2009/10.**

## 5. CYFRIFON TERFYNOL 2008/09

**Gwrthwynebiad i Ddatganiad Cyfrifon 2006/07**

Cyflwynodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru lythyr yr Archwilydd Penodedig yn dilyn cais a wnaed yn y pwyllgor diwethaf am wybodaeth parthed costau'r ymholiadau yn dilyn y gwrthwynebiad ffurfiol a wnaed gan etholwr i gyfrifon y Cyngor yn 2006/07.

Hysbysodd bod gan etholwr cofrestredig yr hawl dan Adran 31 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i wrthwynebu'r cyfrifon. Rhaid i'r archwilydd benderfynu ar y gwrthwynebiad ac mae cost gwaith o'r fath yn cael ei ysgwyddo gan yr awdurdod lleol. Gofynnodd y gwrthwynebydd iddo roddi ystyriaeth a oedd eitemau penodol o wariant yn anghyfreithlon, a oedd aelodau'n euog o gamymddwyn bwriadol ac i gyhoeddi Adroddiad Diddordeb y Cyhoedd ar y mater. Eglurodd y gwnaed gwaith er mwyn casglu a gwerthuso'r dystiolaeth sydd ar gael ac i lunio barn parthed y gwrthwynebiad. Yn dilyn y gwaith maes, cyhoeddwyd y canfyddiadau a'r casgliadau tros dro a phenderfynwyd peidio ategu'r gwrthwynebiad. Fodd bynnag, gwnaed argymhellion statudol i'r Cyngor yng nghyswllt rhai materion a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r ymholiadau. Nododd mai £4,950 oedd y gost o gyflawni'r holl waith. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn esgor ar ffioedd ychwanegol i'r Cyngor gan y cynhwyswyd elfen fechan yn y ffi archwilio blynyddol er mwyn caniatau ymdrin â materion a godwyd gan y cyhoedd o fewn unrhyw flwyddyn unigol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.10am